FSA 08/09/01 **17 MEDI 2008**

COFNODION CYFARFOD Y BWRDD, 17 GORFFENNAF 2008, GWESTY MERCURE HOLLAND HOUSE, CAERDYDD

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae Cofnodion drafft y sesiwn agored a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2008 yng Ngwesty Mercure Holland House, Caerdydd, wedi'u hamgáu. Mae gweddarllediad llawn y cyfarfod ar gael ar wefan yr ASB.

2. Gofynnir i'r Bwrdd **gadarnhau** bod y Cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Cyswllt: Alastair Cannon Ffôn: 020 7276 8610 (GTN 276 8610)
E-bost: alastair.cannon@foodstandards.gsi.gov.uk

Debbie Coles Ffôn: 020 7276 8214 (GTN 276 8214)
E-bost: debbie.coles@foodstandards.gsi.gov.uk

COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y BWRDD, 17 GORFFENNAF 2008, GWESTY MERCURE HOLLAND HOUSE, CAERDYDD

SESIWN AGORED, 0900 – 1500

Yn bresennol:

Y Fonesig Deirdre Hutton, Cadeirydd
Y Dr Ian Reynolds, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Bwrdd yr MHS
Yr Athro Sue Atkinson
Tim Bennett (eitemau 1 i 3.1)
Yr Athro Maureen Edmondson, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon
Margaret Gilmore
Clive Grundy
Michael Parker
Chris Pomfret, Cadeirydd Pwyllgor Risg yr ASB
Yr Athro Bill Reilly
Nancy Robson, Cadeirydd Pwyllgor Olyniaeth a Datblygu'r Bwrdd
John Spence, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Swyddogion yn bresennol:

Tim Smith, Prif Weithredwr
Andrew Wadge, Prif Wyddonydd a Chyfarwyddwr Diogelwch Bwyd
Steve Wearne, Cyfarwyddwr ASB Cymru (eitem 2.4)
Steve McGrath, Prif Weithredwr yr MHS (eitem 3.1)
Mike McEvoy, Cyfarwyddwr Cyllid yr MHS (eitem 3.1)
David Hart, Dirprwy Bennaeth yr Adran Hylendid Cig a Milfeddygaeth (eitem 3.1)
Richard Calvert, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau (eitem 3.4)
John Barnes, Pennaeth yr Uned Presenoldeb Rhanbarthol (eitem 3.4)
Clair Baynton, Pennaeth yr Adran Bwydydd Newydd, Ychwanegion ac Atchwanegiadau, (eitem 3.7)
Trudy Netherwood, Pennaeth y Gangen Atchwanegiadau Bwyd, (eitem 3.7)
Alastair Cannon, Ysgrifennydd y Bwrdd

Eraill yn bresennol:

Sue Davies, Prif Gynghorydd Polisi, Which? (eitem 3.1)
Stuart Roberts, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (eitem 3.1)
Yr Athro Colin Blakemore, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Wyddoniaeth (eitemau 3.2 a 3.3)
Andrew Jarvis, Rheolwr Prosiect, Uned Strategaeth Swyddfa'r Cabinet (eitem 3.5 drwy gysylltiad fideo)

Cyflwyniad y Cadeirydd

1. Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd eu bod o dan rwymedigaeth i ddatgan buddiannau cyn trafod eitemau perthnasol, nododd fod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law oddi wrth Graeme Millar ac y byddai angen i Tim Bennett ymadael â'r cyfarfod ar ôl y drafodaeth ar eitem 3.1.

2. Nododd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod olaf Morris McAllister o'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr ASB Gogledd Iwerddon. Ar ran y Bwrdd, diolchodd iddo am ei waith a nododd iddo fod yn was teyrngar i'r Asiantaeth ac i'r cyhoedd.

3. Chafodd yr un eitem ei chodi i'w thrafod o dan Unrhyw Fusnes Arall.

Eitem 1 – Cofnodion a Chamau Gweithredu

1.1 – Cofnodion y Cyfarfod ar 11 Mehefin 2008, Neuadd y Ddinas, Llundain
(FSA 08/07/01)

4. Cytunodd y Bwrdd ar Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2008 fel cofnod cywir. Mewn perthynas â pharagraff 24, cadarnhaodd Tim Smith fod yr Asiantaeth wrthi'n ystyried cwestiwn cysondeb ar draws y Deyrnas Unedig (DU).[1]
Gweithredu: Richard Calvert

1.2 – Camau Gweithredu
(FSA 08/07/02)

5. Wrth ystyried y tabl o gamau gweithredu, nodwyd y canlynol:

   - cam gweithredu 11Mehefin08/O/376 (Y weithrediaeth i drafod mater labelu unedau alcohol gyda'r Adran Iechyd) - roedd swyddogion yr Asiantaeth wrthi'n trafod gyda'r Adran Iechyd ond doedd dim byd i gyflwyno adroddiad arno eto.

Eitem 2 – Adroddiadau Llafar

2.1 – Adroddiad y Cadeirydd

6. Roedd manylion yr ymrwymiadau wedi'u rhoi yn y papurau rhwymedig ar gyfer y cyfarfod.[2] Soniodd y Cadeirydd am ei chyfarfodydd â'r Arglwydd Rooker (y Gweinidog dros Fwyd Cynaliadwy a Ffermio ac Iechyd Anifeiliaid) am yr MHS a chodi taliadau; ac â Hilary Benn (yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) am yr MHS a chodi taliadau a chynaliadwyedd; ac am ei chyfarfod olaf fel aelod o Fwrdd Rheoli Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop

[1] Yng Nghymru a Lloegr yn unig ybyddai'r darpariaethau a ragwelwyd yn y Mesur Gorfodi Rheoliadau a Sancsiynau yn gymwys.
[2] Papur Rheol Sefydlog SO 08/07/04

(EFSA). Llongyfarchodd Sue Davies (Prif Gynghorydd Polisi, Which?) ar gael ei phenodi'n ddiweddar i Fwrdd Rheoli'r EFSA.

2.2 – Adroddiad y Prif Weithredwr

Rheoliad arfaethedig ar ddefnyddio triniaethau gwrthficrobaidd (AMT) i ddileu halogiad oddi ar arwynebau carcasau dofednod

[Cyn i'r eitem hon gael ei thrafod, datganodd Bill Reilly fod ganddo fuddiant fel cyn Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd. Nododd y Cadeirydd nad oedd hynny'n gyfystyr â gwrthdrawiad buddiannau perthnasol a chytunodd y câi gymryd rhan wrth drafod y mater hwn ac wrth benderfynu arno.]

7. Cyfeiriodd Tim Smith aelodau'r Bwrdd at y papur y trefnwyd ei fod ar gael ar gyfer y cyfarfod. Byddai cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu defnyddio cynorthwyon prosesu gwrthficrobaidd yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Amaethyddiaeth, o bosibl ar gyfer eu cyfarfod ar 29 Medi. Roedd y DU wedi ymatal rhag pleidleisio (oherwydd diffyg amser i ystyried y cynnig) pan gafodd ei gyflwyno yn SCoFCAH[3] ym mis Mehefin; roedd yr aelod-wladwriaethau eraill wedi pleidleisio yn ei erbyn.

8. Wedyn roedd y Weithrediaeth wedi ystyried cwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd a diogelwch a godwyd gan y cynnig ac wedi cytuno y gallai defnyddio triniaethau gwrthficrobaidd wrth brosesu dofednod fod yn ymyriad buddiol i leihau micro-organebau pathogenaidd, yn arbennig pan na all prosesu hylan reoli perygl sy'n bresennol mewn anifeiliaid adeg eu cigydda e.e. Campylobacter mewn dofednod. Roedd yr Asiantaeth wedi gosod targed strategol yn 2005 o weithio gyda'r diwydiant i sicrhau gostyngiad o 50% ym mynychder yr ieir a gynhyrchid yn y DU ac a oedd yn profi'n bositif ar gyfer Campylobacter erbyn 2010 ac roedd y targed hwn yn cyfrannu at nod cyffredinol yr Asiantaeth o leihau clefydau a gludir gan fwyd. Er hynny, roedd y Weithrediaeth o'r farn bod rhaid i ddefnyddio triniaethau gwrthficrobaidd fod yn rhan o strategaeth reoli integredig HACCP ac roedd cynnig y Comisiwn yn darparu ar gyfer cyfnod rinsio ac ar gyfer labeli i roi gwybod i ddefnyddwyr fod cynhyrchion wedi'u trin. Yn dibynnu ar yr amodau hyn, roedd y Weithrediaeth yn fodlon nad oedd y cynnig yn codi dim pryderon diogelwch bwyd a bod iddo'r potensial i wneud gwir wahaniaeth i iechyd pobl.

9. Am resymau gwahanol, roedd y cynnig wedi'i wrthwynebu'n gryf gan y diwydiant, grwpiau defnyddwyr a grwpiau gwyrdd yn y DU. Roedd y mater wedi dod i'r Bwrdd nawr er mwyn cynnig cyfle i aelodau'r Bwrdd drafod y cyngor polisi y dylai'r Asiantaeth ei roi i'r Gweinidogion cyn iddyn nhw gytuno ar safbwynt y DU ar draws Adrannau'r Llywodraeth.

10. Wrth drafod, cytunodd aelodau'r Bwrdd mai'r cyngor y dylid ei roi i'r Gweinidogion oedd y dylai'r DU ymatal rhag pleidleisio yn y cyfarfod o'r Cyngor

[3] Y Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid

Amaethyddiaeth a oedd yn yr arfaeth, gan ofyn am yr wybodaeth ychwanegol ganlynol cyn cymryd rhagor o benderfyniadau ar y mater:

- roedd angen gwybodaeth fanylach oddi wrth y Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol perthnasol,[4] gan gynnwys ACMSF;[5]
- y data sy'n dod i'r amlwg o Seland Newydd, a oedd tan yn ddiweddar â mynychder uchaf campylobacter yn y byd (paragraff 14 o'r papur a gyflwynwyd);
- rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam roedd aelod-wladwriaethau eraill yr UE wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig;
- data mwy cynhwysfawr am gampylobacter a pha ddulliau eraill a allai gael eu defnyddio i'w reoli (e.e. arbelydru);
- sicrwydd na fyddai'r dechneg arfaethedig yn cael ei defnyddio fel "llwybr tarw" yn lle cynhyrchu glân, yn enwedig ar adeg pan yw maint yr elw yn y diwydiant yn mynd yn llai;
- ymateb defnyddwyr, os byddai digon o amser i ymgynghori â chyrff ac NGOs priodol; a
- rhywfaint o wybodaeth am y gwaith monitro y byddai angen ei wneud.

Gweithredu: Andrew Wadge

<u>Canfyddiadau'r EFSA ar Lefelau Salmonela mewn Tyrcwn a Moch</u>
(FSA 08/07/03)

11. Cyfeiriodd Tim Smith aelodau'r Bwrdd at ei adroddiad ysgrifenedig (paragraffau 1-8 a thablau 1-4) gan nodi na chaniateid i wyau o heidiau yn unrhyw un o aelod-wladwriaethau'r UE y gwelir eu bod wedi'u heintio â mathau o salmonela gael eu defnyddio, o Ionawr 2009 ymlaen, i'w bwyta yn uniongyrchol gan bobl oni bai eu bod wedi'u trin â gwres. O ganlyniad i hyn, ni fyddai gwerthu wyau ffres mewn plisgyn o'r heidiau hyn yn cael ei ganiatáu, er mwyn sicrhau na fyddai wyau o heidiau wedi'u heintio â mathau o salmonela sy'n arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd ar werth i'r cyhoedd.

12. Nododd aelodau'r Bwrdd (paragraff 8) fod y Cynllun Gweithredu ar Swonosau, o dan arweiniad y diwydiant, wedi'i adolygu, bod rhaglen rheoli swonosau newydd ar gyfer Salmonela mewn moch (NZAPig) a oedd yn cynnwys ffermwyr a phroseswyr wedi'i lansio gan y diwydiant ym mis Ebrill 2008, a gofynnwyd a allai'r manylion gael eu cylchredeg i aelodau'r Bwrdd.

Gweithredu: Andrew Wadge

<u>Eurofreeze</u>
(FSA 08/07/03)

[4] Y Pwyllgor Gwyddonol ar Iechyd a Risgiau Amgylcheddol; y Pwyllgor Gwyddonol ar Risgiau Iechyd sy'n Dod i'r Amlwg ac sydd Newydd eu Hadnabod (o ran paragraff 19 o'r papur a gyflwynwyd)
[5] Ar gwestiwn gwrthiant posibl (paragraff 17 o'r papur) ac ar y rhesymau bod barn y Pwyllgor wedi newid ers mis Mawrth 2005 (paragraffau 21 a 22 o'r papur a gyflwynwyd)

13. Nododd Tim Smith fod cyfanswm y dirwyon y cyfeiriwyd atyn nhw ym mharagraff 10 wedi dod i £65,000; roedd y ffigur a ddyfynnwyd, sef £6,500, yn cyfeirio at y ddirwy a oedd wedi'i rhoi ar ôl yr apêl.

SRM mewn Cynhyrchion Bwyd o Sweden
(FSA 08/07/03)

14. Yn ychwanegol at yr wybodaeth ym mharagraffau 14-18, dywedodd Tim Smith wrth aelodau'r Bwrdd fod cynhyrchion ychwanegol yn cael eu cadw mewn cwarantin a bod cwestiynau wedi'u codi am gyfrannedd.

Pecyn Asiantau Gwella Bwyd: Adborth UKRep
(FSA 08/07/03)

15. Llongyfarchodd Tim Smith dîm Ychwanegion yr Asiantaeth am eu gwaith yn sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r DU ynglŷn â'r *dossier* (paragraff 23). Byddai'r manylion yn cael eu rhoi i'r Bwrdd mewn nodyn cefndir.

Gweithredu: Gill Fine

Wythnos Diogelwch Bwyd 2008: Ymgyrch GwylioGermau/Bws bwyd yr Alban
(FSA 08/07/03)

16. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Bwrdd am gloriannu eu heffaith yn y tymor hir, nododd Tim Smith mai'r bwriad oedd i'r mentrau hyn gael effaith gynyddol a bod adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno arnyn nhw mewn astudiaethau tracio rheolaidd a oedd yn cael eu comisiynu gan Dîm Cyfathrebu'r Asiantaeth - yr oedd eu canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd - ac yn Adroddiad y Prif Wyddonydd bob blwyddyn.

2.3 - Adroddiad Blynyddol Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
(FSA 08/07/04)

17. Myfyriodd John Spence ar y 12 mis diwethaf o waith y Pwyllgor a'i flaengynllun gwaith, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, y newidiadau yn natur ei bersonél ac arddull ei gyfarfodydd.

18. Cododd John Spence gwestiwn ‘smokies’ (defaid a’r croen arnyn nhw) y mae’r Pwyllgor wedi bod yn brysur ynglŷn ag ef. Roedd smokies yn parhau i gael eu cynhyrchu o dan amodau anhylan a hynny mewn mangreoedd heb drwydded ac felly roedden nhw’n peri pryder o ran iechyd y cyhoedd tra oedd ymchwil wyddonol yn cael ei gwneud. Ni ddisgwylid i’r ymchwil gael ei gorffen tan fis Chwefror 2009, ac ar ôl hynny âi adroddiad i’r Bwrdd i gael ei ystyried ac wedyn câi cyngor ei gyflwyno i’r Gweinidogion. Os na allai’r broses gael ei chyflymu, roedd John yn pryderu y byddai’r gweithgareddau anghyfreithlon yn parhau ac y byddai’r cyfle i harneisio’r farchnad yn cael ei golli. Roedd yn gobeithio y gallai’r Asiantaeth gymryd rhai penderfyniadau o ran egwyddor yn y dyfodol agos iawn cyn i’r adroddiad gwyddonol gael ei gyflwyno, ac y gellid edrych ar y dewisiadau a’r posibiliadau ar y sail bod y wyddoniaeth yn dangos ei bod yn broses ddiogel. Cytunodd Tim o ran egwyddor y gallai tîm rheoli’r ASB weithio’n gyfochrog, gan baratoi’r Asiantaeth yn benodol ar gyfer sgwrs gyda’r Comisiwn ar yr hyn y mae angen ei wneud i newid y gyfraith. Ychwanegodd y byddai angen tystiolaeth gref iawn i ategu unrhyw gynigion i newid y gyfraith.

Gweithredu: Steve Wearne

19. Roedd WFAC wedi mwynhau cysylltiadau da ag Aelodau’r Cynulliad ac ymgysylltiad da â’r rhanddeiliaid; roedd yna botensial ar gyfer datblygiadau. Diolchodd John Spence i Steve Wearne a Joy Whinney (Cyfarwyddwr cyfredol a blaenorol ASB Cymru) a Helen George (Ysgrifenyddiaeth WFAC) am eu cymorth.

20. Mewn ymateb i gais gan y Bwrdd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid cylchredeg nodyn ar y cynnydd wrth weithredu “Adroddiad Paterson”[6] i aelodau’r Bwrdd rhwng sesiynau.

Gweithredu: Richard Calvert

2.4 – Adroddiad gan Gyfarwyddwr ASB Cymru

21. Fel corff cyhoeddus ar lefel y DU gyfan, roedd yr Asiantaeth wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd yr ymrwymiadau hyn wedi’u ffurfioli mewn Cynllun Iaith Gymraeg newydd a gâi ei lansio yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd ar 5 Awst. Roedd ASB Cymru wedi sefydlu Uned Gymraeg y llynedd. Disgrifiodd Steve Wearne statws, swyddogaeth a chyllid ASB Cymru, ei blaenoriaethau, ei huchelgeisiau a’i chynnydd hyd yn hyn ac wrth edrych ymlaen, y Concordat rhwng yr ASB a Llywodraeth y Cynulliad, gwireddu agenda maeth yng Nghymru, ymgysylltu â chynhyrchwyr bwydydd Cymru, a nododd fod yr ASB a’r MHS yn parhau i gydweithredu’n llwyr ag Ymchwiliad Cyhoeddus E.coli.

22. Nododd y Bwrdd fod y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfle i ystyried dulliau gwahanol ac y dylai’r cyfan o’r ASB gael cyfrannu a chydweithredu, o ran y gallu i

[6] Adolygiad mewnol o Bwyllgorau Cynghori Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

ymchwilio, er enghraifft. Nododd y Bwrdd hefyd nad oedd gan Gymru a Gogledd Iwerddon gyllidebau ymchwil ar wahân - yn wahanol i'r Alban.

Eitem 3 – Eitemau i'w Trafod

3.1 – Dyfodol Codi Tâl am Reolaethau Cig Swyddogol
(FSA 08/07/05)
[Cyn y cyfarfod, roedd Tim Bennett wedi datgan ei fod yn berchennog fferm. Erbyn hyn, dim ond naw o anifeiliaid oedd ar y fferm, (gwartheg cig eidion); roedd y rhan helaethaf o'r tir wedi'i chontractio allan. Roedd Bill Reilly wedi datgan buddiant fel darpar Lywydd Cymdeithas Filfeddygol Prydain: mae wedi egluro'i safbwynt o'r blaen ar faterion ynglŷn â Milfeddygon Swyddogol a newidiadau posibl o ran sut y gallen nhw gael eu defnyddio wrth i'r MHS gael ei weddnewid; sef ei fod yn fodlon gweld gostyngiad yn y niferoedd staff os gall hynny gael ei wneud gan ddiogelu diogelwch defnyddwyr a bodloni gofynion deddfwriaeth yr UE. Roedd Ian Reynolds wedi datgan fod ei frawd-yng-nghyfraith yn berchennog fferm ddefaid. Gan nad oedd yna fuddiannau ariannol uniongyrchol, nododd y Cadeirydd nad oedd yn gredadwy i neb feddwl y byddai'r buddiannau hyn yn dylanwadu ar drafodaethau neu benderfyniadau'r Bwrdd ar yr eitem hon a chytunodd y caen nhw gymryd rhan wrth drafod y mater hwn ac wrth benderfynu arno.]

23. Nododd y Cadeirydd fod llythyrau ar y mater hwn oddi wrth Norman Bagley (Association of Meat Inspectors GB Ltd) a Stuart Roberts (Cymdeithas Prosesu Cig Prydain), ac ymatebion yr Asiantaeth iddyn nhw, wedi'u cylchredeg i aelodau'r Bwrdd ac wedi'u cyhoeddi ar y wefan. Roedd trafodaethau'r Bwrdd ar y mater yn ymwneud yn y bôn â sicrhau iechyd y cyhoedd a dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn ymwybodol iawn bod y drafodaeth yn cael ei chynnal yn erbyn cefndir y brigiad *E. coli* a'r Ymchwiliad Cyhoeddus yng Nghymru.

24. Cyflwynodd Tim Smith dîm yr MHS ac yna tanlinellodd dri mater allweddol. Yn gyntaf, mai sicrhau diogelwch bwyd i ddefnyddwyr oedd ymrwymiad cyntaf yr Asiantaeth; yn ail, bod moderneiddio'n dibynnu ar gytundebau ar safleoedd rhwng y perchennog a'r MHS ac yn olaf fod y diwygiadau hirdymor angenrheidiol yn dibynnu ar newidiadau yn rheoliadau'r UE. Cyflwynodd Steve McGrath y papur, a oedd yn gofyn i'r Bwrdd gytuno i gyflwyno taliadau wedi'u seilio ar amser; lleihau disgowntiau, a chyflwyno taliadau am reolaethau ar ddileu SRM.

25. Eglurodd Steve McGrath mai'r diwydiant a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu cig diogel a hynny o anifeiliaid iach a fyddai'n cael gofal da. Y prif ffocws absoliwt i'r Asiantaeth oedd gwneud hyn yn gost-effeithiol ac yn effeithlon a hynny o fewn cyfraith yr UE. Wrth i'r cynigion a oedd gerbron y Bwrdd gael eu datblygu, roedd y rhanddeiliaid wedi'u cynnwys i raddau arwyddocaol; roedd y Corff Cynghori a'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd wedi ategu egwyddor taliadau wedi'u seilio ar amser a fyddai'n ymgorffori rhwystrau a gwrthbwysau efefithiol.

26. Cyflwynodd Stuart Roberts (Cyfarwyddwr, Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain) ei farn bersonol ef, sef:

- mai iechyd y cyhoedd oedd amcan allweddol y diwydiant hefyd;

- bod y gyfundrefn gyfredol yn trin pawb yr un fath ac y dylai'r gyfundrefn yn y dyfodol allu cynnig cymhellion am berfformiad da ac – yr un mor bwysig – cymhellion i atal perfformiad gwael;

- bod y prosiect optimeiddio wedi nodi tair thema:
    - bod enillion cyflym yn bosibl ynglŷn â'r gormodedd o weithwyr
    - y gallai newidaidau arwyddocaol gael eu gwneud pe bai pob parti'n edrych ar yr hyblygrwydd yn y rheolau domestig presennol
    - y gall newidiadau yn y diwydiant, drwy gydweithio, helpu i leihau costau'r MHS; ac

- y gallai dulliau radicalaidd gael eu defnyddio i newid y gyfundrefn gyfredol, er enghraifft treialu ambell safle a monitro'r newidiadau.

27. Atgoffodd Sue Davies (Prif Gynghorydd Polisi, Which?) y Bwrdd fod holl gwestiwn rheolaethau cig a diogelwch cig wrth galon y rheswm y cafodd yr Asiantaeth ei chreu gan fod problemau wedi bod yn y gorffennol ynglŷn â chydymffurfio a gorfodi. Roedd yn derbyn bod yna le i newid, ond mynegodd bryder am yr hyn y byddai'r arbedion costau a nodwyd yn ei olygu mewn gwirionedd yn nhermau risgiau a buddion i iechyd y cyhoedd. Yr allwedd yn hyn o beth fyddai'r rhwystrau a'r gwrthbwysau y cyfeiriwyd atyn nhw yn Atodiad 1d i'r papur a byddai angen dull adolygu priodol.

28. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cydnabu'r Bwrdd:

- fod y cynigion hyn wedi dod i'r amlwg ar ôl cryn drafod a newid yn yr MHS ac yn y diwydiant fel ei gilydd;

- bod y trafodaethau blaenorol wedi'u sbarduno gan yr egwyddor o symud tuag at adennill y costau llawn ond eu bod wedi'u haddasu wedyn gan Adroddiad Tierney i gynnwys cymhorthdal blynyddol o £10m i gydnabod yr effeithiau ar safleoedd bach ac anghysbell;

- bod yr MHS eisoes wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd arwyddocaol; a

- bod angen adeiladu ymddiriedaeth rhwng y cyfranwyr allweddol.

29. Derbyniodd aelodau'r Bwrdd yr argymhelliad a nodwyd yn y papur, sef, cyhyd ag y ceid caniatâd y Gweinidogion, y dylai'r Asiantaeth gynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus llawn ar gynigion i wneud y canlynol:

- cyflwyno taliadau wedi'u seilio ar amser am wasanaethau'r MHS, a fyddai'n disodli'r trefniadau cyfredol ar godi tâl;

- lleihau'r cymorthdaliadau presennol, a allai olygu cynnydd o 12% (gan gynnwys chwyddiant) yn y taliadau hylendid sy'n cael eu talu gan weithredwyr safleoedd cig yn 2009/10; a

- chyflwyno taliadau am reolaethau ar dynnu Deunydd Risg Penodedig (SRM) o 2009/10 ymlaen.

30. Wrth gynnal yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn disgwyl i nifer o egwyddorion gael eu mynegi'n bendant:

- mai diogelwch y cyhoedd yw'r peth pwysicaf un ac y byddai angen datblygu rhwystrau, gwrthbwysau a mesuriadau priodol ynglŷn â gwireddu diogelwch y cyhoedd;

- mai gweithredwyr busnesau bwyd – nid y trethdalwr – oedd yn gyfrifol am ddarparu cig diogel ac y byddai disgwyl iddyn nhw, yn ogystal â'r MHS, newid;

- bod effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gorfodi wedi'i seilio ar risg yn nodau o bwys ac y byddai'n bwysig i'r broses gael ei sbarduno gan ganlyniadau ac y dylai gydnabod y canlyniadau hynny yn y system o daliadau (e.e. drwy wobrwyo ymddygiad da). Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r UE a'r ffordd y mae'n cael ei symud ymlaen. Bydd Bwrdd yr MHS yn edrych ar gwestiwn sut mae'r talaidau yn cael eu cyplysu â chanlyniadau a gwobrwyon;

- defnyddio arian yn briodol, yn enwedig o ran y cymhorthdal o £10m. Mae angen rhesymu clir i benderfynu ar ba sail y dylai safleoedd bach, effeithlon, anghysbell gael eu cynorthwyo, â faint, a chan bwy;

- na ddylai cystadleurwydd gael ei aflunio, ac y byddai angen darparu dadansoddiad mwy soffistigedig o'r effaith ar faterion yr economi, iechyd, y gymdeithas, yr amgylchedd a chydraddoldeb ac o'r effeithiau yn y gwledydd datganoledig;

- bod llawer o waith ar ôl i'w wneud ar greu perthnasoedd a bod angen eglurder ynglŷn â'r ffordd ymlaen;

- bod angen i'r cyfathrebu ag amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, defnyddwyr a gwleidyddion, fod yn effeithiol a chlir, yn enwedig o ran canlyniadau ariannol y taliadau newydd ar lefel safleoedd unigol yn y dyfodol;

- eglurder o ran cysondeb mewn cytundebau Gwasanaethau Busnes, beichiau cytundebau codi tâl a'r risg y maen nhw'n ei chreu;

- byddai angen i'r Weithrediaeth adrodd yn ôl ar risgiau i gyllid yr Asiantaeth; a

- bod angen i'r blaengynllun sy'n cael ei ddatblygu i'r Bwrdd gytuno arno pan fyddai canlyniadau'r adolygiad optimeiddio yn hysbys gynnwys siart Gantt i helpu i ddangos sut mae'r amrywiol ffrydiau gwaith yn ffitio i'w gilydd, eu hamseru a chyfraniadau'r Bwrdd.

Gweithredu: Steve McGrath

31. Pwysleisiodd y Cadeirydd mor bwysig yw "rhuthro gan bwyll", gan fod angen i'r Asiantaeth wneud hyn yn gywir ac adeiladu ymddiriedaeth bob cam o'r ffordd. Diolchodd i'r MHS, Bwrdd yr MHS, Gweithrediaeth yr ASB, Stuart Roberts a Sue Davies am eu gwaith a'u cyfraniadau gwerthfawr.

32. Nododd y Cadeirydd y byddai canlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd i gael eu hadolygu cyn i argymhellion gael eu cyflwyno i'r Gweinidogion.

Gweithredu: Steve McGrath

3.2 – Gwyddoniaeth yn yr ASB: Adroddiad Blynyddol y Prif Wyddonydd 2007/2008
(FSA 08/07/06)

33. Cyflwynodd Andrew Wadge adroddiad ar y gwaith i olrhain tueddiadau mewn clefydau, gan danlinellu'r gwaith gwyddonol a'r ymchwil a oedd yn cael eu gwneud gan yr Asiantaeth a sut roedd hynny'n helpu i ddatblygu polisïau. Roedd hyn yn dangos y prosesau yr oedd yr Asiantaeth wedi'u datblygu i sicrhau bod ei gwaith gwyddonol yn gadarn. Y bwriad oedd y byddai'r Adroddiad yn ddogfen fyw: roedd y CD ryngweithiol yn crynhoi'r amrywiaeth o brosiectau gwyddoniaeth ac yn cynnig cysylltiadau priodol â gwefan yr Asiantaeth (www.food.gov.uk) ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf.

34. Croesawodd y Bwrdd yr Adroddiad fel un llawn gwybodaeth, darllenadwy, difyr ac arloesol.

3.3 – Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Wyddoniaeth (GACS)

35. Rhoddodd yr Athro Colin Blakemore ei gyflwyniad i'r Bwrdd gan gyflwyno diben GACS, amlinellu cryfderau a heriau gwyddoniaeth yn yr ASB, croesawu Adroddiad y Prif Wyddonydd, a chyflwyno adroddiad ar gynnydd GACS. Amlinellodd hefyd y blaenoriaethau yng nghynlluniau gwaith GACS, sef edrych ar y ffordd orau i ddefnyddio gwariant yr Asiantaeth ar ymchwil, gwylio'r gorwel,

llywodraethu, meysydd ymchwil a ffyrdd SACs o weithio, ymgysylltu, a mesuriadau ar gyfer llwyddiant gwyddoniaeth yr Asiantaeth.

36. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd, nododd yr Athro Blakemore:

- fod mwy o angen trawsffrwythloni a gweithio ar draws pwyllgorau er mwyn sicrhau nad yw'r ASB a'i phwyllgorau yn gweithio ar eu pen eu hunain a sut i sicrhau hyn, ac un peth sy'n cael ei ystyried yw cynhadledd flynyddol a fyddai'n cynnwys holl aelodau'r SACs, cyfarfodydd ar y cyd o bosibl, trawsgynrychioli ac ystyried cynnwys gwyddonwyr cymdeithasol ar sawl un o'r pwyllgorau;

- bod y pwyllgorau cynghori ar wyddoniaeth yn teimlo'n bell o waith comisiynu ymchwil a'r broses polisi, a bod angen rhoi sylw i hyn;

- bod annibyniaeth cyngor gwyddonol yn hanfodol a bod aelodau'r GACs a'r pwyllgorau cynghori ar wyddoniaeth yn cydnabod hyn ac nad oedden nhw'n anfodlon eu beirniadu eu hunain, eu pwyllgorau neu'r Asiantaeth;

- y byddai'n rhoi adborth yn nes ymlaen ar ddulliau llywodraethu, gan gynnwys rheoli gwybodaeth, ac ar ganfyddiadau'r gweithgor ar fesuriadau llwyddiant;

- y byddai GACS yn edrych ar adnoddau ymchwil y gweinyddiaethau datganoledig fel rhan o'i ystyriaeth ar wariant a blaenoriaethau ymchwil yr Asiantaeth;

- bod yna brotocolau a chynseiliau ar gyfer sefydlu colegau o arbenigwyr cydnabyddedig; a

- bod ar y pwyllgorau cynghori ar wyddoniaeth eisiau gwybod mwy am sut roedd eu cyngor yn cael ei ddefnyddio gan Fwrdd yr ASB, sef wrth ddefnyddio gwyddoniaeth i fwydo gwaith i lunio polisïau a defnyddio gwyddoniaeth i asesu risgiau.

37. Eglurodd y Cadeirydd fod cyngor y pwyllgorau cynghori ar wyddoniaeth i'r Bwrdd yn aruthrol o ddefnyddiol i'r Bwrdd a bod y Bwrdd wedi cymryd cyfleoedd i wahodd Cadeiryddion y pwyllgorau hynny i gyfrannu i drafodaethau'r Bwrdd lle'r oedd hynny'n briodol - ac y byddai'n parhau i wneud i'w cymryd.

3.4 - Diweddariad ar Waith Timau Rhanbarthol yr Asiantaeth yn Lloegr
(FSA 08/07/07)

38. Cyflwynodd Tim Smith a Richard Calvert y papur hwn ar gloriannu gwaith Timau Rhanbarthol yr Asiantaeth a'r gwaith pellach a gynigiwyd i edrych ar ddewisiadau ar draws holl Ranbarthau'r Llywodraeth. Roedd papur wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2009 a fyddai'n cynnwys cynigion ar ddyfodol y gwaith hwn a hynny yng

nghyd-destun y ffordd orau i'r Asiantaeth weithio mewn partneriaeth â'i rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol. Byddai'r dewisiadau'n cynnwys:

- Estyn y rhaglen bresennol i bob un o naw rhanbarth Lloegr
- Cau'r presenoldeb rhanbarthol presennol
- Ehangu'r presenoldeb rhanbarthol i adlewyrchu model yr asiantaeth ddatganoledig.

39. Roedd aelodau'r Bwrdd am fod mewn sefyllfa i gymryd penderfyniad cadarn ar ddyfodol y gwaith hwn y tro nesaf y deuai gerbron y Bwrdd. Byddai angen i'r papur:

- fod yn glir ar ganlyniadau a mewnbynnau sy'n cyfrannu at amcanion yr ASB;

- ystyried perthnasoedd yr Asiantaeth â'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol eraill;

- bod yn glir ynghylch mesuriadau perfformiad ar gyfer y canlyniadau a ddymunid; a

- rhoi sylw i gwestiwn fforddiadwyedd, gan egluro pa fentrau a phrosiectau eraill y gallai fod angen eu gollwng er mwyn i'r gwaith hwn barhau.

Gweithredu: Richard Calvert

3.6 – Digwyddiad i randdeiliaid ar Symleiddio

[Cymerwyd yr eitem hon allan o'i threfn]

40. Rhoddodd Chris Pomfret wybod i aelodau'r Bwrdd ei fod wedi cadeirio digwyddiad i randdeiliad yn ddiweddar y daeth 30 o bobl iddo. Nododd nad oedd neb wedi cynrychioli ochr y defnyddwyr ac roedd yn credu bod angen i'r Asiantaeth weithio ar hyn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth fwy cytbwys.

41. Roedd Jonathon Back (DG SANCO) ac Oriel Pratt (Adran Gwell Rheoleiddio UE, Swyddfa'r Cabinet) wedi rhoi cyflwyniadau ardderchog ac roedd y cynadleddwyr wedi'u rhannu'n bum grŵp trafod. Y prif bwynt a ddaeth i'r amlwg oedd nad oedd y rhanddeiliaid fel pe baen nhw'n gwybod nad tystiolaeth oedd haeriadau a barn, a bod angen tystiolaeth wrth negodi yn Ewrop.

42. Roedd adroddiad ar y digwyddiad yn cael ei baratoi a byddai'n cael ei anfon at aelodau'r Bwrdd rhwng sesiynau.

Gweithredu: Philip Clarke

3.5 – Prosiect Bwyd Swyddfa'r Cabinet

43. Cyflwynodd Andrew Jarvis yr adroddiad a oedd wedi'i lansio'n ddiweddar gan Swyddfa'r Cabinet "Food Matters" drwy gysylltiad fideo o Swyddfa'r Cabinet.

Roedd y prosiect hwn wedi'i gychwyn gan y Prif Weinidog ac roedd yn cynnwys amrediad eang o adrannau. Roedd swyddogion o'r ASB wedi'u cynnwys yn nhîm y prosiect. Roedd tîm y prosiect wedi cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 ym mis Ionawr 2008; ac roedd yr adroddiad terfynol "Food Matters" wedi'i gyhoeddi yn yr wythnos flaenorol. Roedd hwn yn nodi'r weledigaeth, y strategaeth a chynllun gweithredu. Diolchodd Andrew Jarvis i'r Cadeirydd ac i swyddogion yr ASB am gymryd rhan a rhoi eu cymorth.

44. Nododd aelodau'r Bwrdd y pwyslais ar gadwyn fwyd a oedd yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, gan groesawu'r gyd-strategaeth ymchwil ar fwyd. Nododd y Bwrdd hefyd fod y gweinyddiaethau datganoledig wedi'u cynnwys drwy'r cyfan ac y bydden nhw'n cael eu cynnwys ymhellach. Soniodd Andrew fod Hilary Benn wedi ysgrifennu eisoes at Dasglu'r Prif Weinidogion i chwilio am dir cyffredin. Roedd Swyddfa'r Cabinet yn ddigon bodlon cymryd cyngor gan yr ASB ar sut i weithio drwy ei strwythurau ar faterion datganoledig.

45. Nododd Tim Smith fod elfen y defnyddwyr yn yr adroddiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar sgyrsiau ar wastraffu bwyd gan anwybyddu'r argymhellion ehangach i raddau helaeth. Mynegodd gefnogaeth i argymhellion yr adroddiad ond mynegodd ei bryder ynghylch lefel yr adnoddau y byddai eu hangen i fynd â'r gwaith yn ei flaen. Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cytuno ar gynlluniau strategol yr Asiantaeth ar sail adnoddau ariannol penodol; doedd fawr o le ar gyfer gwaith newydd o fewn yr adnoddau presennol. Sicrhaodd Andrew Jarvis y Bwrdd nad oedd yn credu y byddai'n amhosibl ymdopi â'r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn gwireddu unrhyw rai o'r amcanion. Dywedodd Tim Smith fod y gwaith cynnar ar gyllidebau yn awgrymu cynnydd o 20% ar wariant CCDH.

3.7 – Atchwanegiadau Bwyd

46. Disgrifiodd Clair Baynton a Trudy Netherwood y sefyllfa ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd ar faterion cyfredol a gwaith sydd yn yr arfaeth ynghylch atchwanegiadau bwyd. Croesawodd y Bwrdd y diweddariad buddiol a nodi bod cynnig gan y Comisiwn a fyddai'n pennu lefelau uchaf ar gyfer fitaminau a mwynau mewn bwyd yn debyg ym mis Ionawr 2009. Byddai'r Weithrediaeth yn rhoi gwybod yn gyson i'r Bwrdd wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen ac yn dod â'r mater yn ôl i'r Bwrdd pe bai angen cytuno ar gyngor i'r Gweinidogion.

Eitem 4 – Eitemau Gwybodaeth ac Unrhyw Fusnes Arall

47. Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau o dan y rheolau sefydlog a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod agored hwn (SO 08/07/01 - SO 08/07/06), y papur gwybodaeth yn sôn am geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Cwynion a Chwythu'r Chwiban (INFO 08/07/01) a'r adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (INFO 08/07/02-04).

Dyddiad y cyfarfod nesaf

48. Câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal yn Llundain, ar 17 Medi 2008.